# YSGOL 3-19 Y FENNI

## Rhagair Cadeirydd y Llywodraethwyr

Rydym ni, fel y corff llywodraethu, yn falch iawn o allu darparu'r llyfryn hwn i ddarpar rieni am Ysgol newydd 3-19 y Fenni, fel gwybodaeth ategol ar gyfer y broses dderbyn ysgolion ar gyfer mis Medi 2023.

Mae hyn yn cynnwys: llythyr rhagarweiniol gan Mr Jonathan Watson, y pennaeth sydd newydd ei benodi; manylion sefydlu'n raddol yr ysgol newydd; amlinelliad byr o'r cwricwlwm y bydd yr ysgol yn datblygu dros amser; gwybodaeth am adeilad newydd yr ysgol sy'n cael ei adeiladu ar hyn o bryd; a gwybodaeth am y broses a'r dolenni ar-lein perthnasol ar gyfer derbyniad i'r ysgol yn y Dosbarth Derbyn a Blwyddyn 7 ym Medi 2023.

Mae'n bwysig pwysleisio, ar gyfer blwyddyn academaidd 2023-24, y bydd yr ysgol 3-19 yn gweithredu o safleoedd ac eiddo presennol Ysgol Brenin Harri VIII ac Ysgol Deri View, o dan bennaethiaeth Mr Watson. Ar ddiwedd y flwyddyn academaidd honno, bydd trefniadau wedyn yn cael eu gwneud i bob disgybl drosglwyddo i adeiladau cyffrous newydd yr ysgol, a ddarlunnir yn y llyfryn hwn.

Gobeithiwn y bydd y wybodaeth hon yn ddefnyddiol i chi.

Sian Phillips

**Cadeirydd Corff Llywodraethu Dros Dro’r Ysgol 3-19**



# Llythyr gan y Pennaeth

Rwy'n falch iawn fy mod wedi cael fy mhenodi'n Bennaeth Ysgol 3-19 y Fenni.

Rwy'n hynod o gyffrous i greu, sefydlu ac arwain yr ysgol pob oed newydd hon er mwyn cynnig darpariaeth addysgol ardderchog i bob disgybl yn y gymuned wych hon, yn y dref anhygoel hon. Byddaf yn dod â lefelau uchel o egni, positifrwydd, gwydnwch a charedigrwydd i'r rôl.

Fy nghymhelliad mwyaf yw'r cyfle i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i gyfleoedd bywyd pobl ifanc.  Credaf yn angerddol y dylai pob plentyn gael mynediad at addysg wych fel bod ganddynt ddewisiadau go iawn mewn bywyd.

Fy ngweledigaeth yw i'n disgyblion wneud cynnydd cyflym a chyflawni rhagoriaeth academaidd mewn amgylchedd o gariad a gofal.  Fy nod yw arfogi ein disgyblion â'r wybodaeth, y cymeriad, a'r pŵer dysgu i gyflawni'r graddau uchaf yn eu cymwysterau ac i fyw bywydau llwyddiannus. Rwy'n credu yn y meddylfryd twf a'r gallu diderfyn i bawb gyflawni pethau gwych. Mae'r hyn rydym yn dod, a'r hyn rydym yn cyflawni, yn dod o addysgu gwych, gwaith caled a chefnogaeth anhygoel.

Mae gan ysgolion pob oed bŵer trawsnewidiol wrth wella'r profiad addysgol a'r canlyniadau i ddisgyblion. Bydd Ysgol y Fenni 3-19 yn cofleidio'r holl fanteision hyn yn llawn. Gall y cyfle i gefnogi disgybl Blwyddyn 13, yr ydym wedi ei adnabod ers iddo fod yn 3 oed, gael effeithiau dramatig.

Bydd ein hysgol yn deulu cryf lle mae'r disgwyliadau'n uchel, mae gwerthoedd yn bositif, ac mae plant yn cael eu trysori.  Rwy'n credu ym mhŵer diderfyn perthynas gynnes rhwng staff a disgyblion.  Byddaf yn sicrhau bod ein hysgol yn le hapus lle mae pob disgybl yn teimlo gwir ymdeimlad o berthyn a lle mae pob disgybl yn teimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi fel unigolyn.

Edrychaf ymlaen at gwrdd â chi gyd ac at weithio'n agos gyda phob un ohonoch i adeiladu dyfodol disglair gyda'n gilydd.

Rwy'n gyffrous am ddyfodol ein hysgol newydd. Mr

Jonathan Watson



# Ysgol 3-19 Y Fenni

Mae ein hysgol 3-19 newydd yn agor ar ei champysau presennol, sef Ysgol Brenin Harri VIII ac Ysgol Deri View, ym mis Medi 2023. Bydd cymuned yr ysgol yn dod at ei gilydd, mewn llety pwrpasol newydd sbon, ym mis Medi 2024.

Mae ein hysgol newydd yn cael ei hadeiladu fel rhan o raglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu Llywodraeth Cymru a chaiff ei hariannu ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a Chyngor Sir Fynwy.  Mae'r ysgol wedi cael ei dylunio gan ein cymuned, ar gyfer ein cymuned.

Mae'r llinell amser isod yn nodi'r camau yr ydym yn eu cymryd i agor ein hysgol newydd a phryd y byddant yn digwydd.

**Hydref 2022** Torri tir i adeiladu sylfeini'r ysgol newydd

**Haf 2023** Ysgol newydd 3-19 yn agor gan ddefnyddio adeiladau presennol Ysgol Deri View ac Ysgol Brenin Harri VIII

**Tymor yr Hydref 2023** Bydd y gwaith adeiladu ar gyfer yr ysgol newydd yn parhau am y tri thymor nesaf

**Haf 2024** Bydd pob disgybl yn symud i adeiladau'r ysgol bwrpasol newydd

**Hydref 2024** Dymchwel adeiladau ysgol gwreiddiol ar safle Ysgol Brenin Harri VIII

**Gaeaf 2024** Cwblhau tirlunio a gosod y cyfleusterau chwaraeon

Dyma ddelwedd o sut y bydd y fynedfa i'r ysgol newydd 3-19 yn edrych pan fydd yn agor i ddisgyblion a'r gymuned ym mis Medi 2024.



# Cwricwlwm ein Hysgol

Bydd holl ddisgyblion yr ysgol newydd yn dilyn y **Cwricwlwm i Gymru**.

Bydd ein hysgol yn rhoi cwricwlwm eang, cytbwys, ac amrywiol i'r disgyblion o'r ansawdd uchaf lle mae cynrychiolaeth yn allweddol.

Mae ein cwricwlwm yn cael ei arwain yn bwrpasol gyda datblygiad dilyniannol a systematig cynnwys a sgiliau o dair oed i naw oed.  Mae hyn yn sicrhau bod ein disgyblion yn gwneud cynnydd ardderchog wrth iddynt symud drwy'r ysgol.

Mae'r cwricwlwm wedi ei seilio ar Bedwar Diben Craidd sy'n rhoi fframwaith i ni y gallwn ei ddefnyddio i gefnogi pob disgybl er mwyn iddynt ddod:

Yn ddysgwyr **uchelgeisiol a galluog**, yn barod i ddysgu drwy gydol eu bywydau.

Yn gyfranwyr **mentrus a chreadigol**, yn barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith

Yn ddinasyddion **moesegol a gwybodus** yng Nghymru a'r byd

Yn bobl **iach a hyderus**, sy'n barod i fyw bywyd i'r eithaf a chael eu gwerthfawrogi gan y rhai o'u cwmpas fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Byddwn bob amser yn cadw'r dibenion hyn mewn cof wrth i ni gynllunio ein cwricwlwm ysgol i sicrhau bod pob disgybl yn elwa o **brofiadau dysgu o ansawdd uchel** er mwyn iddynt allu datblygu'r sgiliau, y wybodaeth, a'r hyder i gyflawni'n uchel.

Bydd ein dull o addysgu a dysgu wedi'i wreiddio yng ngwyddor sut mae plant yn dysgu.  Mae hyn yn cynnwys gofyn llawer o gwestiynau, egluro mewn camau bach, tywys ymarfer cyntaf, a meddwl yn ddwfn.  Bydd y dysgu yn canolbwyntio ar y disgybl, yn gynhwysol ac wedi'i addasu'n llawn i ddiwallu anghenion a diddordebau'r unigolyn.

Bydd manteision trawsnewidiol ysgol pob oed yn cael eu cofleidio'n llawn. Mae'r rhain yn cynnwys lefelau uchel iawn o les disgyblion, gan herio'r rhaniad cynradd/uwchradd yn llwyddiannus a galluogi cynhwysiant effeithiol lle caiff pob plentyn ei adnabod.

Bydd ystod eang o glybiau arloesol a gweithgarwch allgyrsiol, gan adeiladu ar y ddarpariaeth bresennol yn Ysgol Brenin Harri VIII ac Ysgol Deri View.



# Ein dyluniad ysgol newydd ar gyfer Medi 2024

Mae ystafelloedd dosbarth yn ein hysgol newydd yn fawr, yn olau ac a chyfoeth o gyfarpar TG, tra bod mannau dysgu hyblyg yn rhoi cyfleoedd i fyfyrwyr ddatblygu eu sgiliau tîm a dysgu annibynnol.





Mae meysydd arbenigol ar gyfer celf, cerddoriaeth, drama, gwyddoniaeth, dylunio cynnyrch, tecstilau, technoleg bwyd a chyfrifiadureg yn hynod fodern ac wedi'u cynllunio ar gyfer defnydd myfyrwyr ar draws yr ystod oedran.





Mae ein hysgol newydd yn elwa o fannau bwyta modern a mannau awyr agored yn yr ysgol uchaf a'r ysgol isaf, gan ganiatáu i ni i gyd chwarae, bwyta ac ymlacio yn ein gofod ein hunain. Mae hyd yn oed gan ein Chweched Dosbarth eu caffi eu hunain.

Mae ein hysgol newydd wedi'i gosod mewn tiroedd eang gyda golygfeydd ar draws tref y Fenni tuag at gefn gwlad godidog Sir Fynwy. Mae dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth, mewn cwrt dysgu neu ysgolion coedwig wedi'u hintegreiddio'n llawn i'n profiadau dysgu a dyluniad yr ysgol.

Yn ogystal â phrif dderbynfa ymwelwyr, mae ein hysgol yn elwa o nifer o fynedfeydd blwyddyn a chyfnod penodol.





Mae gennym nifer o gyfleusterau chwaraeon sy'n cefnogi ein cwricwlwm addysg gorfforol, a hefyd iechyd a lles pawb o fewn ein cymuned. Yn fewnol mae gennym ystafell addysgu gwyddoniaeth chwaraeon yn ogystal â stiwdios dawns a gweithgareddau a neuadd chwaraeon, ac yn allanol mae ein campws yn elwa o gaeau glaswellt iau ac uwch, cae 3G ar gyfer pêl-droed a rygbi, carped ar gyfer hoci a thenis a mannau aml-gemau dan lifoleuadau ar gyfer ystod o chwaraeon gan gynnwys pêl-rwyd a phêl-fasged.



Rydym yn falch mai ein hysgol newydd fydd yr ysgol Sero-Carbon Net gyntaf yng Nghymru. Mae ein myfyrwyr yn angerddol am ein rhinweddau gwyrdd ac yn ein harwain ar ein taith i fwy fyth o gynaliadwyedd trwy deithio llesol a stiwardiaeth amgylcheddol.



## Derbyniadau i'n hysgol

<u>Y Broses Derbyn ar gyfer Medi 2023</u>

<u>Mynediad Blwyddyn 7</u>

Bydd gofyn i rieni o bob un o ddisgyblion blwyddyn 6 sydd am gael lle ym Mlwyddyn 7 yn Ysgol 3-19 newydd y Fenni ym Medi 2023 i wneud cais drwy ddilyn y broses isod. Bydd hyn yn cynnwys y disgyblion hynny sydd ar y gofrestr ar hyn o bryd yn Ysgol Gynradd Deri View.

Dechreuodd y broses ar 21ain Medi 2022 i blant sy'n ymgeisio am fynediad i'r ysgol uwchradd ar gyfer Medi 2023.

Nodir amserlen cyfnod derbyn Blwyddyn 7 isod:

- Dyddiad y mae’r system ymgeisio ar gael - 21ain Medi 2022
- Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau - 23ain Tachwedd 2022 am 5 o'r gloch
- Dyddiad cynnig 1af Mawrth 2023

Derbyniadau i’r Dosbarth Derbyn

Bydd angen i rieni sy'n gwneud cais am le i’w plentyn yn y Dosbarth Derbyn ar safle Deri View o fis Medi 2023, wneud cais am le ysgol yn Ysgol newydd 3-19 y Fenni.

Dechreuodd y broses derbyn ar gyfer plant oedd i fod i ddechrau'r ysgol gynradd (Dosbarth Derbyn) ar gyfer Medi 2023 ar 2 Tachwedd 2022.

Nodir amserlen y rownd dderbyn isod:

- Dyddiad y mae’r system ymgeisio ar gael - 2il Tachwedd 2022
- Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau - 11eg Ionawr 2023 am 5 o'r gloch
- Dyddiad cynnig: 17 Ebrill 2023

Ceir manylion pellach ynglŷn â'r broses dderbyn ar wefan 'Gwneud cais am le ysgol' Cyngor Sir Fynwy. Cliciwch yma.

Cofiwch y bydd disgyblion sydd ar y gofrestr ar hyn o bryd yn Nosbarth Derbyn hyd at Flwyddyn 5 yn Ysgol Gynradd Deri View ac ar y gofrestr yn Ysgol Brenin Harri VIII yn trosglwyddo'n awtomatig i'r ysgol newydd, felly ni fydd angen cwblhau ffurflen gais newydd.

Y Broses Dderbyn o fis Medi 2024 ymlaen

Mae'n bwysig nodi y bydd y broses dderbyn ar gyfer blwyddyn academaidd Medi 2024 ymlaen yn wahanol i'r hyn sydd wedi'i amlinellu uchod. Ni fydd gofyn i rieni disgyblion sydd eisoes ar gofrestr yn yr ysgol newydd wneud cais am le ym Mlwyddyn 7.

Dim ond ym mis Medi 2024 y bydd angen i rieni wneud cais i'w plentyn ddechrau yn y Dosbarth Derbyn yn yr ysgol newydd. O fis Medi 2025, bydd pob disgybl ym Mlwyddyn 6 yn trosglwyddo'n awtomatig i gam uwchradd yr ysgol.

## Gwybodaeth bellach a dolenni i’r broses dderbyn ar gyfer 2023

Am ragor o wybodaeth am dderbyniadau i’r Dosbarth Derbyn ar gyfer 2023/24 cliciwch yma, ac am brosbectws llawn cliciwch yma.

Am ragor o wybodaeth am fynediad i Flwyddyn 7 ar gyfer 2023/24 cliciwch yma, ac am brosbectws llawn cliciwch yma.